Yr Hudlath a’r Haearn

Cymeriadau

1. Llŷr
2. Don
3. Tarianrhod
4. Prif Warchodwr
5. Gard 1
6. Gard 2
7. Gard 3
8. Adroddwr









Ar y llwyfan mae muriau Caer Haearn y rhyfelwyr a’r goedwig hudol y tu hwnt. Mae arwydd yn dangos y poster sydd ar dudalen 13 Yr Hudlath a’r Haearn.

Mae’r Adroddwr yn dod i flaen y llwyfan.

Adroddwr: Amser maith yn ôl, cyn i Ynysoedd Prydain wybod mai Ynysoedd Prydain oedden nhw hyd yn oed, roedd yna bobol yn byw ynghanol y coedwigoedd tywyll.

Mae Llŷr, y Dewin, yn camu ar y llwyfan o un ochor.

Adroddwr: Y Dewiniaid, oedd yn meddu ar Hud.

Mae Llŷr yn estyn am ei hudlath.

Adroddwr: A’r Rhyfelwyr, oedd â Haearn.

Mae Gard #1 yn camu ar y llwyfan ac yn chwifio ei gleddyf.

Adroddwr: Ac roedd y Dewiniaid a’r Rhyfelwyr yn casáu ei gilydd.

Mae Llŷr a Gard #1 yn gweld ei gilydd ac yn ysgyrnygu ar ei gilydd.

Adroddwr: Roedd y Dewiniaid yn casáu’r Rhyfelwyr oherwydd bod y Rhyfelwyr yn torri eu coedwigoedd i lawr er mwyn creu eu cestyll pren.

Mae Gard #1 yn codi bwyell.

Gard #1: Mae angen dod a rhywfaint o drefn i’r goedwig yma, yn does?

Adroddwr: Ac roedd y Rhyfelwyr yn casáu'r Dewiniaid am fod ganddyn nhw Hud. Roedden nhw'n meddwl ei fod yn beryglus ac eisiau cael gwared ohono.

Llŷr: Eiddigeddus ydyn nhw, dw i'n meddwl! Mi dro i ti i mewn i benbwl, y pen-bwbwach drewllyd!

Mae Llŷr a Gard #1 yn wynebu ei gilydd ac yn paratoi i frwydro. Mae Gard #1 yn codi ei gleddyf, a Llŷr yn codi ei hudlath.

Adroddwr: Yn anffodus, mae gan y Dewin yma broblem.

Llŷr: (Poeni) Pa fath o broblem?

Adroddwr: Does ganddo ddim Hud!

Gard #1: Aha!

Mae *Gard #1 yn rhedeg at Llŷr i ymosod arno. Mae Llŷr yn camu i'r naill ochor i'w faglu, ac yna'n rhedeg i ffwrdd. Mae'r Gard #1 yn codi ar ei draed.*

Gard #1: Lle'r aeth o?

Mae Gard #1 yn troi at y gynulleidfa.

Gard #1: Lle'r aeth o?

Mae Llŷr yn sleifio heibio tu ôl heb i'r gard ei weld. Mae'r Gard #1 yn edrych bob ffordd ac yna'n rhedeg i ffwrdd y ffordd anghywir. Mae Llŷr yn sleifio yn ôl i mewn ac at waliau Caer Haearn y Rhyfelwyr. Mae'n ysgwyd ei hudlath.

Llŷr: Mae fy Hud i'n siŵr o ddechrau gweithio rywbryd! Dere mlan!

Mae'n pwyntio ei Hudlath at muriau'r castell.

Llŷr: Hud... hud... dere i'r byd! Na, dyw hwnnw ddim yn gweithio...

Mae Dôn yn codi ei phen uwchlaw'r mur.

Dôn: Llŷr?! Beth wyt ti'n ei wneud yma?

Adroddwr: Ond, nid pob Dewin a pob Rhyfelwr oedd yn casáu ei gilydd yn y coedwigoedd tywyll. Roedd dau ohonyn nhw wedi dod yn ffrindiau agos.

Dôn: Llŷr?!

Llŷr: O, helo Dôn! Beth wyt ti’n ei wneud yma?

Dôn: Dyma ble rwy'n byw! Pam wyt ti wedi dod fan hyn? Mae’n berygl bywyd!

Llŷr: Am mai fi yw unigolyn mwyaf hudolus y bydysawd!

Dôn: Ond mae yna dri chant o Ryfelwyr yn y Caer yma!

Llŷr: Gwych! Rydw i wedi dod yma i ddal rhyfelwyr.

Dôn: Mi wnawn nhw dy ddal di, ac mi wneith fy mam y Frenhines Tarianrhod dy daflu di yng nghell 445!

Llŷr: O. Beth sydd yng nghell 445?

Dôn: Does neb yn gwybod! Does neb eisiau gwybod! Rywbeth ofnadwy! A dyna ble mae mam yn cloi’r holl greaduriaid Hud mae hi’n eu dal.

Llŷr: Mi fydda i’n iawn! Rydw i’n arwr! Ac rydw i’n mynd i brofi i fy nhad, y Brenin Seithwg y Swynwr, Brenin y Dewiniaid, a fy mrawd Rhaib, a phawb arall yng Nghoedwig y Dewiniaid fy mod i’n arwr drwy ddal Rhyfelwr a mynd a fo adref.

Dôn: Llŷr! Paid â bod yn wirion!

Llŷr: Hisht! Dyma un yn dod nawr!

Mae Llŷr yn cuddio yn y goedwig. Mae Dôn yn gostwng ei phen ryw ychydig y tu ôl i furiau’r Gaer i guddio. Mae Gard #1 yn cerdded yn ôl ymlaen.

Gard #1: I le aeth y Dewin dwl yna?

Llŷr: (O’r cefndir) Www-www!

Gard #1: (Ofn) Be sy’ na?

Llŷr: Bwga-bw!

Gard #1: (Ofn) Ysbryd?

Llŷr: Woof!

Gard #1: (Dryslyd ond mwy ofn fyth) Blaidd-ddyn?

Mae pen Dôn yn diflannu tu ôl i furiau'r castell.

Llŷr: Rhoch!

Gard #1: (Yn crynu) Ysbadden gefn-flewog rhech-roch?

Llŷr: Moooo!

Gard #1: (Wedi drysu) Buwch?!

Mae Llŷr yn neidio allan ac yn cydio yn Gard #1.

Llŷr: Wedi dy ddal di, y rhyfelwr rhechlyd!

Mae Gard #1 yn ei daflu ar y llawr ac yn codi ei gleddyf.

Gard #1: DEWIN! MAE DEWIN YMA!

Mae lleisiau yn codi o gefn y llwyfan.

Gard #2 & 3: DEWIN!

Mae Gard #1 yn codi ei gleddyf i drywanu Llŷr.

Dyma'r diwedd i ti!

Dôn: Naaaaaaa!

Mae Dôn yn rhedeg ar y llwyfan, gan dynnu sylw Gard #1. Mae Llŷr yn codi i ddianc ond yn bwrw yn erbyn Dôn ac yn syrthio ar lawr. Mae Gard #1 yn cydio ynddo drachefn.

Gard #1: Da iawn, Dywysoges! Rydych chi wedi ei ddal o. Eich Dewin cyntaf. Bydd eich Mam yn falch iawn ohonoch chi dw i'n siŵr.

Dôn: Ond...

Mae Gard #2 a #3 yn rhedeg ymlaen.

Gard #2: Beth sy'n digwydd?

Gard #1: Mae'r Dywysoges Dôn wedi dal dewin!

Gard #2: Mae dewiniaid yn ymosod!

Gard #3: Seiniwch y larwm!

Gard #2: Galwch yr Heddlu Hud!

Mae un yn cydio yn Llŷr a'r llall yn gwarchod Dôn.

Llŷr: (Blin) Pannas piws! Gadewch i fi fynd!

Mae'r Prif Warchodwr yn ymlwybro i mewn.

Prif Warchodwr: Beth sy'n mynd ymlaen fan hyn?

Gard #3: Dewin ym mharth pedwar, syr!

Gard #2: Mae'r Dywysoges yn ddiogel ac yn saff!

Dôn: (Blin) Dydw i ddim angen gwarchodaeth!

Prif Warchodwr: Lladdwch o yn y fan a'r lle!

Dôn: Na! Does ganddo ddim arfau! Peidiwch â meiddio ei ladd neu mi wna i ddweud wrth Mam!

Daw llais y Frenhines Tarianrhod o gefn y llwyfan.

Tarianrhod: Dweud beth wrthai i?

Gard #3: (wrth saliwtio) Y Frenhines Tarianrhod!

Mae pawb yn stopio ac mor llonydd â delwau heblaw am Llŷr sydd yn parhau i frwydro. Mae'r Frenhines Tarianrhod yn dod i mewn. Mae hi'n dal ac yn brydferth, gyda gwallt fel rhaeadr hir euraidd, ond mae ei llais a'i ymarweddiad yn oeraidd iawn.

Tarianrhod: Pwy sydd wedi 'neffro mor ddisymwth cyn iddi wawrio?

Prif Warchodwr: (Crynu) Ry'n ni wedi atal yr ymosodiad, Eich Mawrhydi.

Tarianrhod: Ydych wir. Ond doedd o ddim yn ymosodiad mawr iawn, nac oedd, i gyfiawnhau dihuno brenhines? Un dewin?

Mae'r Prif Warchodwr yn agor ei geg i ddweud rhywbeth.

Tarianrhod: Roeddwn i’n meddwl bod gen i’r gwylwyr gorau yn y byd, ac felly mae’n peri'r mymryn lleiaf o bryder y gallai bachgen o ddewin sleifio mor agos i ‘nghaer heb i neb ei weld.

Prif Warchodwr: (Rhuo’n awdurdodol) Y gwylwyr a fu’n gyfrifol am ganiatáu i’r ymosodiad gan ddewin ddigwydd, camwch ymlaen!

Mae Gard #1 yn camu ymlaen yn betrus.

Tarianrhod: Dos ar dy union i Ddaeargell 308, dy gloi dy hun i mewn a gwthio’r goriad drwy flwch y drws.

Gard #1: (wrth saliwtio) Ar fy union, eich Mawrhydi! A fyddai eich Mawrhydi cystal â rhoi cic yn fy mhen ôl, hefyd?

Tarianrhod: Na. Dydw i ddim yn gwisgo esgidiau addas. Prif Warchodwr, rhowch chi gic yn ei ben ôl.

Mae’r Prif Warchodwr yn rhoi cic ym mhen ôl Gard #1 ac mae hwnnw’n ei heglu hi o’r llwyfan.

Tarianrhod: A chic yn eich pen ôl eich hunan hefyd, erbyn meddwl, Brif Warchodwr.

Mae’r Prif Wrachodwr yn gwneud ymdrech lew i roi cic yn ei ben ôl ei hun.

Tarianrhod: Pwy ddaliodd y Dewin yn y lle cyntaf?

Gard #2: (Pwyntio at Dôn) Eich merch, y Dywysoges Dôn.

Mae Tarianrhod yn troi at Dôn gydag un llaw ar ei chalon.

Tarianrhod: Dôn! Am beth rhyfelaidd i’w wneud. Ddim fel y ti o gwbl. Ydi hyn yn wir? A wnest ti wir ddal y Dewin ar dy ben dy hunan fach?

Dôn: Ie... ie.

Tarianrhod: Hmm. Rydw i’n dy nabod di’n rhy dda, ac yn gwybod pan wyt ti’n dweud celwydd. Beth ddigwyddodd?

Dôn: Ro’n i yn y ffordd ac... ac... mi faglodd y Dewin drosta i.

Tarianrhod: (Ochenaid) Fydden i ddim yn galw hynny’n ddal y Dewin, fyddet ti? Pam na allet ti fod yn debycach i dy chwiorydd? Tynnwch y cadwyni oddi ar y carcharor!

Prif Warchodwr: Ond eich Mawrhydi, ydi hynny’n beth call i’w wneud? Mae’n Ddewin wedi’r cwbl...

Mae Tarianrhod yn edrych yn llym arno, ac mae'n datod y cadwyni.

Tarianrhod: (Edrych ar Llŷr) Beth wyt ti, a beth wyt ti'n ei wneud yn fy nghaer i?

Llŷr: (Bach) Llŷr ydw i, mab Seithwg, Brenin mawr y Swynwr. Ni sydd biau'r Coedwigoedd Gwyllt, ni'r dewiniaid, nid chi'r gwladychwyr rheibus, di-Hud! Ac rydw i wedi dod yma i'ch gyrru chi i ffwrdd!

Tarianrhod: (gan ochneidio) O, y fath anwybodaeth sydd gan y Dewiniaid, druain. Ry'n ni'n rhoi trefn ar bopeth ydan ni'n ei gyffwrdd.

Mae Tarianrhod yn cerdded o'i amgylch ac yn cyfeirio at y Gaer o'i hamgylch.

Tarianrhod: Edrych arnom ni. Edrych ar ein harfau ni, ein dillad ni, ein tapestrïau ni, ein celfi ni. Ry'ch chi, y Dewiniaid, mewn cymhariaeth, ddim llawer gwell nag anifeiliaid...

Llŷr: I beth sydd angen celfi? Pan allet ti fyw yn y goedwig, a dawnsio dan y lleuad, a bod yn rhydd? A pwy sydd angen arfau pan mae gen ti Hud?

Mae Llŷr yn tynnu ei Hudlath o'i boced. Mae'r gardiaid yn ebychu ac yn cuddio tu ôl i Tarianrhod. Mae hi'n rhewi yn yr unfan.

Llŷr: Rydych chi Ryfelwyr wedi dod fan hyn, dwyn ein coedwig, ac un diwrnod pan fydda i'n tyfu lan ac yn arweinydd ar fy llwyth, dw i'n addo fy mod i'n mynd i LADD Y CWBWL LOT OHONOCH CHI!

Tarianrhod: (Gostegu) Wyt ti? Wee-ee-l... Mae hyn yn ddiddorol. Wel, dos amdani. Gwna dy hud.

Llŷr: (Ansicr) Ha! Ha! Dydw i erioed wedi gweld Brenhines erchyll mor llipraidd!

Mae Tarianrhod yn gwingo a pob un o'r gardiaid yn dal eu hanadl. Mae llygaid Tarianrhod yn culhau nes eu bod fel dwy lechen miniog.

Tarianrhod: *Beth* wedest ti?

Llŷr: Dinistrydd dieflig y goedwig! Ha! Cythraul-ar-goesau gyda chlustiau fel coblyn a gwallt fel pen ôl arth a thrwyn fel moronen geinciog! Dyna wyt ti!

Tarianrhod: Alli di felltithio gymaint â ti eisiau, Llŷr, fab Seithwg! Ond rwy'n sylwi nad wyt ti'n dal wedi gwneud unrhyw Hud. Wel!

Llŷr: (Gwastraffu amser) Chi'n feddalach na chwningen! Yn wannach na dŵr! Yn fwy fflwfflyd na'r babi llygoden fwyaf fflwff-

Tarianrhod: Does gen ti ddim Hud, nacoes? Cymerwch ei hudlath oddi arno.

Mae Gard #3 yn rhedeg ymlaen ac, yn ofalus iawn, yn cymryd yr hudlath o law Llŷr. Mae'n ei roi i Tarianrhod. Mae Tarianrhod yn ei ddal o flaen ei llygaid.

Tarianrhod: Diddorol iawn. Dal hwn, wnei di, Dôn?

Mae'n troi'n ôl at Llŷr. Mae Dôn yn dal yr hudlath i fyny o'i blaen.

Tarianrhod: Reit, rwy'n credu ei fod yn bryd dy gloi yng nghell 445...

Pow! Daw sŵn ffrwydro o rywle. Mae Tarianrhod, y Prif Warchodwr, a Gard #2 & #3 yn syrthio ar lawr.

Llŷr: Beth ddigwyddodd?

Dôn: Dydw i ddim yn siŵr. Fe deimlais i ryw oglais rhyfedd yn mynd drwydda i. Ac wedyn, pow! Fe ddaeth allan drwy'r hudlath.

Llŷr: Beth? Mi wnes ti Hud?!

Dôn: Dw i...

Llŷr: Dyw hynny ddim yn deg o gwbwl! Sut wyt ti'n gallu gwneud Hud a dydw i ddim?! Dw i'n Arwr o Ddewin! Dim ond Rhyfelwr wyt ti!

Dôn: Dw i ddim yn gwybod...

Mae'n rhoi'r hudlath yn ôl yn llaw Llŷr, sydd yn ei chwifio o gwmpas.

Dôn: Ond rhaid i ti fynd Llŷr! Dos yn gyflym, cyn i fwy o ryfelwyr gyrraedd!

Mae Tarianrhod yn ebychu ar lawr.

Llŷr: Wel, dw i'n siŵr dy fod ti'n iawn. Efallai bod ymosod ar Gaer gyda thri chant o ryfelwyr ynddo'n ormod... hyd yn oed i Arwr Mwyaf y Bydysawd! Tro nesa, dim ond hanner dewis o Ryfelwyr ar y tro! Hwyl Dôn!

Dôn: Dos!

Mae Llŷr yn rhedeg i ffwrdd. Mae Tarianrhod a'r gardiaid yn araf godi ar eu traed.

Tarianrhod: Beth ddigwyddodd?

Dôn: Dydw i ddim yn gwybod. Mae'n rhaid... wel, mae'n rhaid bod ganddo rywfaint o Hud wedi'r cwbl.

Tarianrhod: Ddynion?

Gardiai #2, #3 a'r Prif Warchodwr: Ie, eich Mawrhydi?

Tarianrhod: Dw i ddim eisiau i neb sôn am hyn BYTH ETO!

Gardiai #2, #3 a'r Prif Warchodwr: Wrth gwrs eich Mawrhydi!

Mae pawb ond Dôn yn cerdded i ffwrdd. Mae hi'n syllu ar ei dwylo.

Dôn: Mae gen i... Hud?

Tarianrhod: Tyrd, Dôn!

Dôn: (Ofn) Dw i'n dod, Mam!

Mae Dôn yn rhedeg oddi ar y llwyfan.

Y DIWEDD